



Cais am Ffilmio/Recordio Cudd neu Ddirybudd

Mae'n hanfodol bwysig bod cynhyrchydd y rhaglen yn cael trafodaeth fanwl gydag aelod perthnasol o Dîm Comisiynu S4C **cyn bod unrhyw ffilmio cudd neu ddirybudd yn digwydd**. Fel rhan o'r broses hon mae disgwyl i'r ffurflen gais amgaeedig am Ffilmio/Recordio Cudd neu Ddirybudd gael ei chwblhau.

Nod S4C yw caniatáu ceisiadau lle mae'r cwmni cynhyrchu yn gallu nodi pam fod y prawf diddordeb cyhoeddus yn disodli hawliau'r unigolyn am breifatrwydd. Rhaid, wrth gwrs, sicrhau didueddrwydd dyladwy a thegwch er mwyn cadw hygredd S4C fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus.

Cais am Ffilmio/Recordio Cudd neu Ddirybudd

Rhaid cwblhau'r ffurflen gais hon a'i hanfon at yr aelod perthnasol o Dîm Comisiynu S4C am ganiatâd cyn i unrhyw ffilmio neu recordio cudd neu ddirybudd ddechrau.

Enw'r Rhaglen	
Dyddiad Arfaethedig y Recordio	
Dyddiad Arfaethedig y Darllediad	
Crynodeb o'r Stori	
Gwrthrych/Ymddygiad i'w Ffilmio/Recordio gan gynnwys lleoliadau posib.	
<p>Ffilmio/recordio cudd: Eglurwch pam:</p> <ul style="list-style-type: none"> - bod angen ffilmio/recordio'r gwrthrych/ymddygiad yn gudd (sy'n dangos ei fod yn angenrheidiol i hygredded a dilysrwydd y rhaglen');, - fod y dystiolaeth sydd gennych fod y gwrthrych/ymddygiad yn cyfiawnhau ffilmio/recordio cudd(gan ddangos sail resymol y gellir cael tystiolaeth bellach); ac - Rhaid nodi'r rhesymau pam eich bod yn credu bod y prawf diddordeb cyhoeddus yn disodli hawliau'r unigolyn. 	

Pa ffyrdd eraill o nodi'r ymddygiad sydd wedi eu hystyried? Pa mor bwysig fydd y ffilmio/recordio cudd i'ch gallu i adrodd y stori?

Eglurwch sut y byddwch yn ffilmio/recordio gan gynnwys disgrifiad o'r offer fydd yn cael ei ddefnyddio a phwy fydd yn ffilmio/recordio ac os yn berthnasol y stori **(Cover Story)** arfaethedig.

Ffilmio/recordio'n ddirybudd:

Ni ddylid gwneud cais am ffilmio/recordio'n ddirybudd oni bai:

- bod cais am gyfweiliad wedi ei wrthod; neu
 - nad yw hi wedi bod yn bosibl i wneud cais am gyfweiliad; neu
 - bod rheswm da i gredu y bydd unrhyw ymchwiliad yn cael ei rwystro petaech chi'n cwrdd â'r gwrthrych yn agored;
- ac (ymhob achos) bod cyfiawnhad da iawn i'r ffilmio/recordio dirybudd.

Rhowch fanylion/dyddiadau unrhyw gais a'ch rhesymeg.

Gwneir y cais hwn ar ran [enw'r cwmni cynhyrchu] gan [enw'r cynhyrchydd unigol/uwch gynhyrchydd]

Arwyddwyd:..... Dyddiad:.....

Penderfyniad y Comisiynydd

